Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Grwp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin

Lleoliad:
**Committee Room 3 - Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 3 Tachwedd 2011**

Amser:
**13:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Virginia Hawkins**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8544

## Agenda

**1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

**2. Ymchwiliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin - Tystiolaeth gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (13.00 - 13.40)** (Tudalennau 1 - 9)
CFP(4)-03-11 papur 1
Dr Clare Eno, Uwch Gynghorydd ar Bysgodfeydd
Dr Sue Gubbay, Aelod o Gyngor Cefn Gwlad Cymru

**3. Ymchwiliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin - Tystiolaeth gan Cyswllt Amgylchedd Cymru (13.40 - 14.20)** (Tudalennau 10 - 13)
CFP(4)-03-11 papur 2
John Clark, RSPB Cymru
Debbie Crockard, y Gymdeithas Cadwraeth Forol

**4. Ymchwiliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin - Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd** (Tudalennau 14 - 17)
CFP(4)-03-11 papur 3
Alun Davies AC, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd

Rory O'Sullivan, Cyfarwyddwr, Materion Gwledig
Stuart Evans, Pennaeth y Polisi Pysgodfeydd

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

**PWYLLGOR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU:
GRŴP GORCHWYL A GORFFEN I GYNNAL YMCHWILIAD
I'R DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I'R POLISI PYSGODFEYDD CYFFREDIN**

**YMATEB GAN GYNGOR CEFN GWLAD CYMRU**

## 1. RHAGYMADRODD

1.1. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn hyrwyddo amgylchedd a thirweddau Cymru a'i dyfroedd arfordirol fel ffynonellau cyfoeth naturiol a diwylliannol, fel sylfaen i weithgarwch economaidd a chymdeithasol, ac fel lle ar gyfer hamdden a chyfleoedd dysgu. Ein nod yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywyd pawb yng Nghymru.

1.2. Mae Cymru'n elwa o amgylchedd morol cyfoethog ac amrywiol sy'n darparu 'gwasanaethau ecosystem' helaeth i gymdeithas. Mae ansawdd yr amgylchedd wedi'i adlewyrchu mewn dynodiadau helaeth ac adnodd o ansawdd uchel sy'n cael ei drysori gan lawer. Mae angen rheoli'r amgylchedd morol yn effeithiol, yn enwedig mewn cyfnod pryd y ceir pwysau cynyddol. Cafwyd cydnabyddiaeth i hyn yn gyffredinol, a chymerwyd camau'n ddiweddar i ailwampio trefniadau a rhoi blaenoriaeth i ddiogelu'r amgylchedd. Yn benodol, cafwyd ymrwymiad (o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE) i sefydlu rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n ecolegol gydlynol erbyn 2015 a gwaith i sicrhau Statws Amgylcheddol Da erbyn 2020.

1.3. Pysgota yw'r gweithgarwch mwyaf amrywiol a phellgyrhaeddol yn ein moroedd a chaiff ei reoli'n gyffredinol gan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yn yr un modd, yn wir, ag y mae cadwraeth adnoddau biolegol morol yn dod o dan gymhwysedd unigryw'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae CCGC yn ymddiddori mewn polisi pysgodfeydd am ein bod yn dymuno gweld defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ochr yn ochr â sector pysgota proffidiol a llewyrchus. Ein nod cyffredinol hirsefydlog (CCGC, 2003) yw i bysgodfeydd môr fod yn amgylcheddol gynaliadwy, gan amharu i'r graddau lleiaf posibl ar yr amgylchedd morol, er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth forol yn nyfroedd Cymru.

1.4. Amcan ein dull cyffredinol o drafod pysgota yw:

a. lleihau effeithiau anffafriol ar yr amgylchedd morol;
b. integreiddio ystyriaethau amgylcheddol yn y broses o reoli pysgodfeydd;
c. integreiddio'r broses o reoli pysgodfeydd â rheolaeth fwy cyffredinol ar adnoddau morol;
d. hyrwyddo dull hirdymor/rhagweithiol o reoli;
e. hyrwyddo camau i weithredu ar sail egwyddor ecosystemau;
f. ceisio cynnwys rhanddeiliaid i fwy o raddau yn y broses o reoli pysgodfeydd.

1.5. Mae CCGC yn gorff sy'n gweithredu ar sail tystiolaeth; rydym yn darparu cyngor i Lywodraeth ac eraill sydd wedi'i seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Rhaid seilio camau i ddiwygio'r PPC ar sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n cynnwys dealltwriaeth o'r effeithiau posibl gan bysgodfeydd nid yn unig ar rywogaethau a dargedir ond hefyd ar yr amgylchedd ehangach yn unol ag egwyddor ecosystemau.

1.6. Mae CCGC yn cydweithio ag Asiantaethau Cadwraeth Natur Statudol eraill y DU a thrwy'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i gynnig cyngor ar bolisïau a chyfarwyddebau Ewropeaidd sy'n effeithio ar y DU. Fel cynghorwyr i Lywodraeth, rydym yn cynnig sylwadau'n rheolaidd mewn ymateb i ymgyngoriadau ar bysgodfeydd gan gynnwys adolygiadau o'r PPC yn y gorffennol, gan roi cyngor strategol.

1.7. Mae rheoli'r amgylchedd morol yn waith ymestynnol ac mae angen i Gymru ddatblygu ei sylfaen dystiolaeth ar bysgodfeydd. Mae'n bosibl y ceir cyfle i wneud gwaith gwyddonol ar bysgodfeydd drwy brosiectau sy'n derbyn cyllid o Gronfa Pysgodfeydd Ewrop, ond dylid nodi nad yw hyn yn ateb tymor hir.

## 2. YR ANGEN AM DDIWYGIO

2.1. Mae CCGC yn croesawu'r ymchwiliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r PPC. Mae llawer o ddiwygiadau wedi'u cynnig yng nghynnig terfynol COM (2011) 425 am Reoliad gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (a gyhoeddwyd ym Mrwsel, 13 Gorffennaf 2011). Rydym yn croesawu'n wresog yr ystod eang o ddiwygiadau pellgyrhaeddol sydd wedi'u cynnig ac yn credu y byddai llawer o'r rhain yn gallu sicrhau gwelliannau sylweddol yn y rheoleiddio ar bysgodfeydd ledled Ewrop. Fodd bynnag, at ddiben yr ystyriaeth i'r PPC gan y pwyllgor hwn, mae ein sylwadau'n ymwneud yn unig â'r diwygiadau hynny a gaiff yr effaith fwyaf ar gadwraeth yr amgylchedd naturiol. Ar ôl y sylwadau hyn, mae rhai sylwadau penodol mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor yn y gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth.

2.2. Mae CCGC yn croesawu amcanion cyffredinol (*Erthygl 2*) y cynnig, yn benodol:
- 'The CFP shall ensure fishing and aquaculture activities that provide long-term sustainable environmental conditions …' ac rydym yn hyderu y bydd y gred hon yn parhau wrth ei weithredu.
- Y nod o sicrhau'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf erbyn 2015 (wedi'i gysylltu â chynlluniau amlflwydd – gan gynnwys y rheini sy'n gymwys i stociau cymysg) yn unol â Chynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy (Johannesburg 2002).
- 'The CFP shall integrate the Union environmental legislation requirements'. Er bod hyn wedi'i ddatgan yn glir, mae angen mwy o fanylion yn y rheoliad i ategu'r cynnig.
- Rydym yn cydnabod bod dull o reoli pysgodfeydd wedi'i seilio ar ecosystemau, er ei fod yn bresennol yn Rheoliad 2002, wedi cael lle mwy amlwg bellach – ond mae angen gwneud llawer mwy i'w ategu.

Nodwn mai'r ddau newid yn y canol uchod yw'r newidiadau mwyaf arwyddocaol sydd wedi'u cynnig yn Amcanion Cyffredinol y PPC.

2.3. Credwn fod pob un o'r amcanion sylfaenol hyn yn berthnasol i'r gwaith o reoli pysgodfeydd yn nyfroedd Cymru. Nodwn fod y rheoliad wedi ehangu cylch gwaith y PPC i gynnwys dyframaeth (arfordirol a mewndirol) sy'n neilltuol o berthnasol i Gymru.

2.4. Y newidiadau arfaethedig penodol y mae CCGC yn eu croesawu'n neilltuol, ond yn credu bod lle i'w cryfhau ymhellach mewn rhai achosion fel y nodir, yw'r canlynol:

- datganoli (*erthyglau 52-54)* Credwn fod angen ychwanegu at yr erthyglau i roi manylion am broses ranbarthol integredig gyffredinol gan ei bod yn debygol bellach y bydd y cynghorau rhanbarthol yn ymgymryd i fwy o raddau â rôl rheoli pysgodfeydd, ynghyd â manylion am yr hyn y byddai disgwyl i'r cynghorau rhanbarthol ei gyflawni – (gweler pwynt 4 isod hefyd ynghylch llywodraethu).

- gwahardd taflu pysgod yn ôl/gostwng taflu pysgod yn ôl yn raddol (*erthygl 15*) Byddem yn rhoi pwys neilltuol ar y cyfeiriad at y nod o leihau nifer yr organeddau morol a gaiff eu dal yn ddiangen a nodir yn *erthygl 14* ac yn cysylltu hynny ag *erthygl 15* ('obligation to land all catches') er mwyn ceisio lleihau'r nifer o unrhyw bysgod diangen a gaiff eu dal. Byddai hyn yn hybu'r arferiad o daflu'n ôl yr unigolion diangen hynny, yn enwedig y rhai anaeddfed, y *gellir* eu rhoi'n ôl yn y dŵr heb eu niweidio, yn enwedig elasmobranciaid (siarcod, morgathod a rhaiod). Mae gan ddiwydiant pysgota Cymru gysylltiad cryf yn hanesyddol â dal morgathod a rhaiod, fel bod cadwraeth y rhywogaethau hyn yn neilltuol o berthnasol ym Môr Iwerddon.

- cynlluniau amlflwydd (fel y nodwyd yn *erthygl 11)* a chamau tuag at reoli pysgodfeydd aml-rywogaeth, gan ehangu modelau i gynnwys mwy o elfennau yn yr ecosystem (gan fod tueddiad ar hyn o bryd i fodelau 'aml-rywogaeth' roi sylw i nifer eithaf isel o rywogaethau). Mae hon yn egwyddor sylfaenol y dylai pob rheolwr pysgodfeydd geisio ei gwireddu.

- cynnwys Dyframaeth a Chyngor Cynghori newydd ar Ddyframaeth (*erthyglau 43 a 44*). Mae dyframaeth yn bwysig i economi Cymru; yn Afon Menai y mae'r fagwrfa cregyn gleision fwyaf yn y DU. Fodd bynnag, mae'n bwysig cyfeirio at ddiogelu amodau amgylcheddol ac yn benodol at dymheru datblygiadau dyframaeth â mesurau gwyliadwriaeth er mwyn sicrhau na fydd rhywogaethau estron goresgynnol yn cael eu lledaenu'n anfwriadol. Yn hyn o beth, mae'n bwysig hybu mesurau mewnol gan Aelod-wladwriaethau yn ogystal â glynu wrth rwymedigaethau sydd wedi'u nodi mewn gwahanol gyfarwyddebau amgylcheddol, etc.

- cynnwys cymhellion i hyrwyddo pysgota bach ei effaith a dyfeisiau i leihau effaith pysgota (*erthyglau 7 a 8*) Credwn y dylai'r erthyglau hyn gael eu cysylltu'n benodol ag *erthygl 12*.

- ategu gwaith gwyddonol ar bysgodfeydd sy'n canolbwyntio ar bolisi drwy gasglu data gwyddonol am bysgodfeydd ar raddfa genedlaethol a rhwymedigaeth ranbarthol i gyd-drefnu'r gwaith o gasglu data (*erthyglau 37 a 38*). Mae'n bwysig casglu data am yr ymdrech bysgota fel y gellir asesu'r effaith ar yr amgylchedd a'i chloriannu yn erbyn cydnerthedd yr amgylchedd ac argaeledd yr adnodd, felly rydym yn croesawu *1 (d)* yn *erthygl 37* yn neilltuol. Mae'n bosibl y bydd angen egluro bod y rhan hon yn ategu'r holl elfennau eraill yn y rheoliad (er y gallai hyn fod yn ddealledig, mae cysylltiadau ag *erthygl 12* yn berthnasol wrth ddosrannu adnoddau ar gyfer anghenion data o fewn Aelod-wladwriaethau). Mae CCGC yn casglu ac yn coladu llawer o ddata am ddosbarthiad cynefinoedd, rhywogaethau, eu pwysigrwydd cymharol a'r graddau y maent yn agored i effaith gweithgareddau dichonol gan gynnwys pysgota. Hyd yn hyn, mae maint yr ymchwil wyddonol i ategu dulliau o reoli pysgodfeydd yng Nghymru wedi bod yn gyfyngedig iawn (gyda llawer o bwyslais ar asesiadau stoc rhynglanwol) ac mae angen mwy o bwyslais ar hyn a mwy o adnoddau ar ei chyfer.

- parhau â'r rhanddirymu ynghylch mynediad gan roi hawliau i Aelod-wladwriaethau dros ddyfroedd (y glannau) sydd o dan eu sofraniaeth (*erthygl 6*). Fodd bynnag, nid oes sôn am hawliau hanesyddol mewn rhannau o'r parth 6-12 milltir. *Gellir cymryd bod gwall argraffu yn y dyddiad o dan baragraff 4.*

- mesurau parhaus i sicrhau na fydd yr ymdrech bysgota yn fwy na'r adnodd sydd ar gael (*erthyglau 34 a 35*).

## 3. Y PPC A'R CYD-DESTUN POLISI SY'N DATBLYGU YNG NGHYMRU

3.1. Mae egwyddor ecosystemau yn galw am ystyried a rheoli amgylchedd penodol cyfan fel system integredig, gan integreiddio polisïau ac ystyried yr adnoddau sydd ar gael, fel ei bod yn ystyried pob agwedd ar yr ecosystem ac yn annog rhanddeiliaid i gymryd rhan. Mae'n cydnabod bod ein ffyniant economaidd a'n lles yn dibynnu ar ein cyfalaf naturiol, gan gynnwys ecosystemau, sy'n darparu cyflenwad o nwyddau a gwasanaethau hanfodol i ni.

3.2. Calonogol yw nodi bod y cyfeiriad polisi ynghylch pysgodfeydd Ewropeaidd a defnyddio adnoddau'n effeithlon ar raddfa ehangach (y trywydd effeithlonrwydd adnoddau) yn debyg i'r hyn sy'n datblygu yng Nghymru. Mae'r fframwaith ar gyfer yr amgylchedd, cefn gwlad a'r moroedd o gwmpas Cymru (Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol), sydd wedi'i osod yng nghyd-destun Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru 'Cymru Fyw', yn disgrifio dull newydd o reoli'r amgylchedd yng Nghymru sydd wedi'i seilio ar egwyddor ecosystemau, yn yr un modd â Strategaeth Pysgodfeydd Cymru.

3.3. Byddai'n fuddiol asesu'r cynigion ar gyfer diwygio'r PPC yng nghyd-destun yr egwyddorion sy'n codi yn Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Mae hyn yn neilltuol o bwysig ar gyfer cyflawni nod sylfaenol Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol o sicrhau bod gan Gymru ecosystemau sy'n fwyfwy cydnerth ac amrywiol a fydd yn rhoi buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

3.4. Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru i baratoi Cynlluniau Morol ar gyfer dyfroedd Cymru ac yn mynnu bod penderfynwyr yn rhoi sylw i Gynlluniau Morol. Rhoddodd CCGC ei ymateb yn ddiweddar i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu Cynllunio Morol ar gyfer Cymru. Yn ein hymateb, tynnwyd sylw at bwysigrwydd Cynllunio Morol fel proses integreiddio. O gofio natur gynhwysfawr ac amrywiol y sector pysgodfeydd môr, mae'n hollbwysig bod y broses cynllunio morol yn rhoi pob ystyriaeth i amcanion y sector ac yn eu hystyried ochr yn ochr â'r angen i wneud y defnydd mwyaf posibl o'r holl wasanaethau y mae ecosystemau morol yn eu darparu i gymdeithas.

3.5. Nodwn fod y diwygio presennol ar y PPC hyd yn oed yn fwy perthnasol i Gymru nag yr oedd o'r blaen am fod Parth Pysgodfeydd Cymru wedi'i ehangu o'r terfyn tiriogaethol o 12 milltir fôr i'r llinell ganol yn 2010.

## 4. LLYWODRAETHU GWELL

4.1. Mae <u>datganoli rheolaeth ar bysgodfeydd</u> yn gysyniad sydd i'w groesawu'n neilltuol. Er hynny, mae'r ymdriniaeth â'r modd y cyflawnir hyn yn brin iawn yn y rheoliad arfaethedig (*erthyglau 52-54*). Er ei bod yn sicr y byddai hyn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dull o weithredu gan Gynghorau Cynghori unigol, mae angen cyfarwyddyd cliriach, yn enwedig o gydnabod y bydd y rheoliad sefydlu (Penderfyniad (CE) rhif 2004/585) yn cael ei ddiddymu ar ôl derbyn rheoliad newydd y PPC. Gan fod y rhan fwyaf o randdeiliaid y cynghorau'n cynrychioli cyrff pysgota, byddai'n fuddiol rhoi cyfarwyddyd mwy penodol ynghylch sut y gallent helpu i symud tuag at sicrhau dull o weithredu wedi'i seilio ar ecosystemau.

4.2. Wrth groesawu dull o weithredu wedi'i seilio ar ecosystemau, credwn fod cynnwys rhanddeiliaid yn y Cynghorau Cynghori sydd wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'w môr rhanbarthol – fel Môr Iwerddon a dyfroedd cyfagos (sydd o dan y Cyngor Cynghori Rhanbarthol presennol ar gyfer dyfroedd y Gogledd-orllewin) – yn y gwaith o reoli'r adnodd yn rhoi iddynt fwy o gyfrifoldeb ac atebolrwydd.

4.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd da ar resymoli'r drefn o lywodraethu pysgodfeydd drwy gyflawni rôl arweiniol wrth reoli pysgodfeydd drwy sefydlu Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau a Grŵp Ymgynghorol Pysgodfeydd y Môr Cymru. Mae'r grwpiau hyn yn adlewyrchu i ryw raddau y strwythurau a phrosesau ar lefel ranbarthol sy'n cael eu hyrwyddo o dan y PPC. Hoffem weld Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau a Grŵp Ymgynghorol Pysgodfeydd y Môr Cymru yn datblygu rhanddeiliaid unigol er mwyn cyfleu barn pysgotwyr a rhanddeiliaid Cymru'n well mewn Cynghorau Cynghori, i helpu i sicrhau dull amgylcheddol gynaliadwy o reoli pysgodfeydd yn enwedig ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd, fel modd i gyflawni nodau Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a Strategaeth Pysgodfeydd Cymru ym Mharth Pysgodfeydd Cymru. Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) yn cynnig modd i sicrhau rheolaeth o'r fath ar hyd y glannau.

## 5. INTEGREIDDIO GWELL Â CHYFARWYDDEBAU AMGYLCHEDDOL

5.1. Mae amgylchedd morol glân ac iach yn hanfodol ar gyfer pysgodfeydd ac, yn yr un modd, mae llawer o gyfrifoldeb ar bysgotwyr i helpu i sicrhau bod ecosystemau morol yn cael eu cynnal. Er bod CCGC yn croesawu'r amcanion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn *erthygl 2* (gweler 2.2. uchod), credwn nad yw'r cysylltiadau rhwng y PPC ac, yn benodol, Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, yn ddigon clir.

5.2. Credwn fod rhaid i'r holl gamau gweithredu o dan y PPC fod yn gydnaws â rhwymedigaethau Aelod-wladwriaethau i sicrhau Statws Amgylcheddol Da o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (bydd angen cydweithredu da rhwng Aelod-wladwriaethau i gyflawni hyn ar lefel moroedd rhanbarthol), felly rydym o'r farn bod angen mesurau penodol o fewn y rheoliad.

5.3. Ardaloedd Morol Gwarchodedig yw un o'r mesurau i gyflawni amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Felly dylid cael cydnabyddiaeth glir yn y PPC i bwysigrwydd Ardaloedd Morol Gwarchodedig i iechyd yr amgylchedd morol ehangach, y rôl bwysig y gall yr ardaloedd hyn ei chyflawni wrth gynnal pysgodfeydd masnachol a'r angen i reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy, yn enwedig y rheini a allai effeithio ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Dylid cael cydnabyddiaeth glir hefyd i'r modd y gall mesurau drwy'r PPC fod o gymorth i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

5.4. Yn ogystal â hyn, mae angen integreiddio gwell a chliriach â chyfarwyddebau amgylcheddol eraill. Rydym hefyd o'r farn y gallai'r erthyglau roi anogaeth fwy cadarnhaol a phenodol i gyflawni amcanion y cyfarwyddebau hyn, a chynnwys ymadroddion fel 'to help achieve the objectives of Special Areas of Conservation' yn *erthygl 12.1*. Yn wir, dylid cyfeirio'n ôl at *erthyglau 7 a 8* ynghylch lleihau effaith pysgota.

5.5. Yr unig sôn am gydymffurfio â'r Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yw hynny yn *erthygl 12* (nad yw ond yn enwi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig er bod cyfeiriad hefyd at Erthygl 4 o Gyfarwyddeb 2009/147/EC sy'n ymwneud ag Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig). Fodd bynnag, mae'r geiriau a ddefnyddir yn erthygl 12, 'alleviate the impact of fishing in SACs', yn gwanhau bwriad erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae erthygl 6(2) o'r gyfarwyddeb honno yn defnyddio'r geiriau 'take appropriate steps to avoid deterioration of habitats / disturbance of species ...' ac erthygl 6.3/6.4 ynghylch cynlluniau neu brosiectau, yn eu gwneud yn destun asesiad priodol os bydd unrhyw amheuaeth o ran eu heffaith ac yn caniatáu iddynt fynd ymlaen dim ond os na fyddant yn amharu ar gyfanrwydd y safle dan sylw ('not adversely affect the integrity of the site concerned ...') heblaw mewn achosion lle mae budd cyhoeddus tra phwysig. Dylid newid y geiriad er mwyn adlewyrchu'r hyn a geir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn fwy manwl.

5.6. Yn ogystal â hynny, mae *Erthygl 12(2)* yn nodi bod rhaid i'r Comisiwn gael ei awdurdodi ('empowered') i fabwysiadu deddfau dirprwyedig i reoleiddio pysgodfeydd môr sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, er y byddai'n gywirach defnyddio'r gair 'obliged'. Dylai fod yn ofynnol i'r CE arfer ei bwerau er mwyn sicrhau lefel debyg o warchodaeth i'r hyn y mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau ei sicrhau o dan Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

5.7. Gan mai pysgota yw un o'r prif fathau o bwysau dynol ar yr amgylchedd morol, byddai rheoli capasiti ar raddfa ranbarthol yn gallu helpu Aelod-wladwriaethau i sicrhau Statws Amgylcheddol Da o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a chyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd. Dim ond offer cyfyngedig, ac *ad hoc* braidd ar hyn o bryd, a ddefnyddir i gyfyngu effaith pysgodfeydd ar yr amgylchedd. Credwn y byddai cyflwyno / cymhwyso Asesu Amgylcheddol Strategol ym mhob un o bysgodfeydd yr UE yn fuddiol i bysgodfeydd ac i'r amgylchedd.

5.8. Un rôl bosibl i'r Cynghorau Cynghori newydd arfaethedig mewn cyfundrefn reoli ddatganoledig fyddai ymgymryd ag asesiadau amgylcheddol strategol eang o'r fath ar bysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd/ecosystemau strategol. Yn ogystal â hyn, mewn cysylltiad â Chynllunio Gofodol Morol yn benodol, dylai'r elfennau ynghylch pysgodfeydd gael eu trafod gan y Cynghorau Cynghori. (DS Ar hyn o bryd mae gweithgorau Cynllunio Gofodol Morol yn o leiaf ddau o'r Cynghorau Cynghori Rhanbarthol a chyrff anllywodraethol amgylcheddol fydd yn arwain y rhain gan mwyaf.)

5.9. CCGC fu'r catalydd ar gyfer gwaith gyda gwyddonwyr morol blaenllaw ar ddatblygu mapiau sensitifrwydd pysgodfeydd i Gymru sy'n dangos ardaloedd sy'n addas ar gyfer llawer o fathau o bysgota masnachol ac ardaloedd lle mae mathau llai niweidiol o bysgota'n briodol (gweler hefyd adran 6.2).

## 6. DEALL A DATBLYGU AR SAIL ASTUDIAETHAU ACHOS ARFERION DA YNG NGHYMRU

6.1. Gan fod dylanwad y PPC yn dal i gynyddu mewn Undeb Ewropeaidd sy'n ehangu ac oherwydd y gydnabyddiaeth i'r angen am fwy o ddatganoli, mae'n fwyfwy pwysig bod arferion da yn cael eu rhannu'n eang. Mae rhai enghreifftiau rhagorol yng Nghymru y gallwn eu rhannu, y gellid cymhwyso eu hegwyddorion mewn mannau eraill.

6.2. Mae CCGC, mewn partneriaeth â chyrff pysgota, yn rhedeg prosiect peilot o gwmpas Ynys Môn o'r enw 'FishMap Môn' (gyda chymorth gan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop) sy'n casglu data am weithgareddau pysgota ac yn eu cyfuno â mapiau sensitifrwydd gwely'r môr er mwyn dyfeisio canllawiau ar gyfer rheoli adnoddau. Mae prosiect peilot FishMap Môn yn dangos sut mae gwaith mewn partneriaeth sy'n cynnwys rhanddeiliaid yn fodd i integreiddio ystyriaeth i anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ac yn enghraifft o ddull gweithredu wedi'i seilio ar ecosystemau sy'n cynhyrchu canllawiau rheoli. Mae'r holiadur electronig a grëwyd ar gyfer y prosiect wedi gwneud defnydd o ddulliau gweithredu a ddatblygwyd yn Lloegr a'r Alban ac fe'i defnyddir hefyd yn awr i gasglu data am weithgareddau pysgota mewn mannau eraill yng Nghymru.

6.3. Rydym yn croesawu amcanion yr offeryn ariannol newydd (*Erthygl 49)* a allai gyfrannu at gyflawni amcanion y PPC ac yn enwedig y rheini yn *erthygl 2* sy'n cynnwys sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol hirdymor, dull gweithredu wedi'i seilio ar ecosystemau ac integreiddio gofynion deddfwriaeth amgylcheddol. Er hynny, byddem yn pwyso am gryfhau'r cysylltiadau a'u gwneud yn fwy cyson â'r amodau caeth ar gyfer cydymffurfio â rheolau'r PPC (*erthyglau 50 a 51*). Byddem yn cymell defnyddio cynlluniau peilot (yn

cyfateb i'r rheini a hyrwyddir i roi prawf ar dechnolegau rheoli newydd o dan *erthygl 47*) o'r un math â'r gwaith treialu sy'n cael ei wneud o gwmpas Ynys Môn.

## 7. CRYNODEB

Mae llawer o ddiwygiadau blaengar wedi'u disgrifio yn rheoliad newydd arfaethedig y PPC y mae CCGC yn eu croesawu'n wresog. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y bydd rhai o'r mesurau amgylcheddol mwy goleuedig hyn yn cael eu gweithredu, rydym yn dymuno tynnu sylw at yr angen am y canlynol:

- ystyriaeth fanwl i'r modd i ddelio â rhai rhywogaethau y gallai fod yn anodd osgoi eu dal ond a fyddai'n elwa, er hynny, o'u taflu'n ôl i'r môr mewn cysylltiad â gwaharddiad ar daflu pysgod yn ôl;
- rheolaethau i'w gwneud yn llai tebygol i rywogaethau goresgynnol gael eu lledaenu gyda chamau i hybu datblygiad dyframaeth;
- mwy o waith gwyddonol yn sail i ddulliau o reoli pysgodfeydd, yn enwedig o ran cyflawni rhwymedigaethau amgylcheddol a lleihau effaith pysgodfeydd ar yr amgylchedd;
- cysylltiadau clir rhwng yr egwyddorion sydd wedi'u disgrifio yn "Cymru Fyw" / Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol y mae Cymru'n eu datblygu i ganiatáu i lywodraeth fabwysiadu dull gweithredu wedi'i seilio ar ecosystemau ar gyfer rheoli pysgodfeydd sydd wedi'i argymell yn y PPC;
- llywodraethu mwy integredig gan gynnwys integreiddio amgylcheddol pellach mewn Cynghorau Cynghori;
- cysylltiadau clir rhwng yr erthyglau a chyfarwyddebau amgylcheddol gan gynnwys Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, y Gyfarwyddeb Adar, y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;
- mecanweithiau clir yn y PPC fel y gellir sicrhau rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd wedi'i reoli'n dda;
- cymhwyso Asesiadau Amgylcheddol Strategol at yr holl bysgodfeydd gan gynnwys rhai gan Gynghorau Cynghori;
- rhannu arferion da ynghylch ffyrdd o sicrhau dull gweithredu wedi'i seilio ar ecosystemau â rhanddeiliaid
- cysylltiadau cryfach rhwng cyllid o gronfeydd strwythurol ar gyfer pysgodfeydd a chynaliadwyedd amgylcheddol.

## YMATEB CCGC I GWESTIYNAU PWYLLGOR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, mae CCGC yn cynnig y sylwadau canlynol mewn ymateb i gwestiynau'r pwyllgor a nodwyd yn eich llythyr dyddiedig 13 Hydref 2011.

***1. Beth allai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd eu golygu i Gymru ac i reolaeth Parth Pysgodfeydd Cymru? Yn benodol, a fyddai cynigion y Comisiwn i ddatganoli'r rheolaeth o bysgodfeydd o fudd i Gymru?***

Byddai datganoli rheolaeth ar bysgodfeydd yn helpu i wneud y PPC yn fwy cymwysadwy i Gymru gan na fyddai'r Cyngor Cynghori perthnasol ond yn delio â Gogledd-orllewin Cymru (h.y. o gwmpas arfordir gorllewinol y DU ac Iwerddon) a byddai ganddo weithgorau ar gyfer Môr Iwerddon a Chynllunio Gofodol Morol, sy'n ddau fater sy'n flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru. Byddai hefyd yn gadael dadleuon ynghylch rhanbarthau penodol i

gynghorau cynghori eraill ac yn caniatáu i waith y gweinyddwyr a phenderfynwyr Ewropeaidd fod yn fwy strategol. (Gweler hefyd adran 4 a 5.8. uchod.)

***2. Beth allai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd eu golygu o ran hyfywedd cymdeithasol ac economaidd cymunedau arfordirol yng Nghymru?***

Oherwydd dibyniaeth fawr y pysgodfeydd masnachol yng Nghymru ar sector bach pysgodfeydd y glannau, mae cysylltiadau agos â hyfywedd cymdeithasol ac economaidd rhai cymunedau arfordirol yng Nghymru. Mwy o bwyslais ar y dull o reoli pysgodfeydd wedi'i seilio ar ecosystemau, cynllunio tymor hwy drwy gynlluniau amlflwydd a'r nod o sicrhau'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf erbyn 2015 yw rhai o'r elfennau yn y PPC diwygiedig sy'n debygol o fod yn llesol. Ar yr un pryd, mae mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn fodd i gynnwys cymunedau'n fwy uniongyrchol yn y gwaith o reoli pysgodfeydd ac yn helpu i wireddu'r egwyddor ecosystemau. Mae gwaith mewn partneriaeth, fel hynny a geir drwy brosiect FishMap Môn, yn enghraifft o'r modd y gall hyn ddigwydd.

***3. Pa effaith y gallai newidiadau yn y sector pysgodfeydd ehangach yn Ewrop ei chael ar Gymru?***

Byddai llawer o'r newidiadau sydd wedi'u cynnig ar gyfer rheoliad newydd y PPC yn dod â manteision i Gymru fel sicrhau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf ar gyfer stociau erbyn 2015. Mae nifer o stociau sy'n bwysig i bysgodfeydd masnachol a hamdden yng Nghymru yn mynd drwy gamau yn eu cylchoedd bywyd ymhell o ddyfroedd Cymru, fel draenogiaid môr. Oherwydd hynny, byddai rheolaeth well ar stociau rhywogaethau o'r fath yn fanteisiol i'r un graddau i bysgodfeydd ac i fioamrywiaeth Cymru.
Bydd cymhwyso *Erthyglau 9, 10 ac 11* yn fanteisiol i Gymru ac, ar ben hynny, dylid cymhwyso'r egwyddorion hyn ar gyfer datblygu cynlluniau amlflwydd ym mhob rhan o Barth Pysgodfeydd Cymru.

***4. Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei flaenoriaethu yn ystod y trafodaethau ar ddiwygio'r PPC er mwyn sicrhau canlyniadau buddiol i Gymru?***

Yn nhrefn blaenoriaeth ac fel y nodwyd uchod, hoffem dynnu sylw at yr anghenion canlynol:

1. Mewn cysylltiad â datganoli:
   mwy o fanylion i ddangos y broses ar gyfer datganoli llywodraethu a mwy o integreiddio amgylcheddol mewn Cynghorau Cynghori.
   Hefyd cymhwyso Asesiadau Amgylcheddol Strategol at yr holl bysgodfeydd gan gynnwys rhai gan Gynghorau Cynghori.

2. Mewn cysylltiad ag integreiddio gwell â chyfarwyddebau amgylcheddol:
   dangos cysylltiadau clir yn yr erthyglau â Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a chyfarwyddebau amgylcheddol eraill gan gynnwys y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, y Gyfarwyddeb Adar, y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Cyfeirio'n gadarnhaol hefyd at y rhyngweithio er mwyn helpu'r mesurau pysgodfeydd i gyflawni amcanion y cyfarwyddebau amgylcheddol hyn.

3. cynnwys mecanweithiau clir yn y PPC, o dan gysylltiadau â Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, fel y gellir sicrhau rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd wedi'i reoli'n dda.

4. Rhannu arferion da ynghylch ffyrdd i sicrhau dull gweithredu wedi'i seilio ar ecosystemau â rhanddeiliaid (gweler pwynt 6.2. uchod). Mae hyn yn cynnwys dangos cysylltiadau cliriach â Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a chysylltiadau cryfach rhwng cyllid ar gyfer pysgodfeydd o gronfeydd strwythurol a chynaliadwyedd amgylcheddol.

5. Ynghylch rhoi'r gorau'n raddol i daflu pysgod yn ôl:
ystyriaeth fanwl i'r modd i ddelio â rhai rhywogaethau y gallai fod yn anodd osgoi eu dal ond a fyddai'n elwa, er hynny, o'u taflu'n ôl i'r môr mewn cysylltiad â gwaharddiad ar daflu pysgod yn ôl.

6. Mewn cysylltiad â chynnwys Dyframaeth yn y PPC newydd:
sicrhau bod rheolaethau gwyliadwriaeth i'w gwneud yn llai tebygol i rywogaethau goresgynnol gael eu lledaenu gyda symudiadau i hybu datblygiad dyframaeth;

7. Mewn cysylltiad â gofynion data ar gyfer rheoli pysgodfeydd:
mae angen mwy o waith gwyddonol yn sail i ddulliau o reoli pysgodfeydd yng Nghymru, yn enwedig o ran cyflawni rhwymedigaethau amgylcheddol a lleihau effaith pysgodfeydd ar yr amgylchedd.

(Gweler hefyd adrannau 5 a 2.4. uchod.)

### *5. Sut all Cymru sicrhau bod ei barn yn cael ei hystyried yn y trafodaethau?*

Mae CCGC yn croesawu diddordeb y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn yr adolygiad hwn o'r PPC. Mae angen i Gymru gymryd rhan yn gynnar ac yn glir ar lefel penderfynu a thros fuddiannau Cymru. Mae enghreifftiau da o ddulliau blaengar o reoli pysgodfeydd yng Nghymru a gellid defnyddio'r rhain i ddangos sut i symud ymlaen.

Er bod rôl i'r Cynghorau Cynghori Rhanbarthol o ran dylanwadu ar y broses llunio polisi, cyrff wedi'u harwain gan randdeiliaid ydynt, yn hytrach na fforymau ar gyfer ymgysylltu gan weinyddiaethau Llywodraethau datganoledig o fewn aelod-wladwriaethau. Fodd bynnag, os bydd y cynghorau cynghori newydd yn ymgymryd â rôl rheoli i fwy o raddau, mae'n bwysig bod cysylltiadau cliriach â llunwyr polisi pysgodfeydd, yn cynnwys rhai ar gyfer Cymru.

Cafwyd rhywfaint o drafod anffurfiol gan randdeiliaid am ddiwygio'r PPC yng Nghymru drwy Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau, a allai gyfrannu at negodiadau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon wrth ddod i safbwynt cyffredin. Byddai ymgynghori o'r fath â rhanddeiliaid hefyd yn gallu cyfrannu at waith y Cynghorau Cynghori Rhanbarthol ac Aelodau Cymru yn Senedd Ewrop wrth iddynt graffu ar y cynigion ar gyfer y PPC.

### *6. Unrhyw bwyntiau perthnasol eraill?*

Dylai cymorth ariannol hefyd gael ei ddarparu mewn modd sy'n gyson â chyflawni'r elfennau amgylcheddol sydd yn amcanion cyffredinol y PPC.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
**Countryside Council for Wales**
26 Hydref 2011

Eitem 3

Cyswllt Amgylchedd Cymru
Wales Environment Link

27 Heol y Wig / 27 Pier Street, Aberystwyth, SY23 2LN ☎ : 01970 611621 : enquiry@waleslink.org
Cadeirydd / Chair: Dr Madeleine Havard Cyfarwyddwraig / Director: Susan Evans www.waleslink.org

**Evidence to the Environment and Sustainability Committee Task & Finish Group inquiry into the proposed reforms to the Common Fisheries Policy**

**October 2011**

**Wales Environment Link (WEL)** is a network of environmental and countryside Non-Governmental Organisations in Wales, most of whom have an all-Wales remit. WEL is officially designated the intermediary body between the government and the environmental NGO sector in Wales. Its vision is to increase the effectiveness of the environmental sector in its ability to protect and improve the environment through facilitating and articulating the voice of the sector.

WEL welcomes this opportunity to present written evidence to the Environment and Sustainability Committee‟s Task & Finish Group inquiry into the proposed reforms to the Common Fisheries Policy. Given WEL‟s remit, we have focussed our comments on the environmental aspects of the Commission‟s proposal. Further details on these top-line issues and other elements of the reform package can be found in the evidence papers submitted by individual member organisations from WEL‟s Marine Working Group. We look forward to elaborating on our written submission at the Committee‟s oral evidence session.

**General Comments**

The proposals for the new CFP released on July 13th 2011 address many of the issues that are vital to achieving sustainable EU fisheries and demonstrate that the Commission has attempted to move some way towards their vision outlined in the 2009 Green Paper. As such, WEL believes that the proposal offers some welcome improvements on the current system of fisheries management. However, there are several vital elements lacking in the proposal, including the clear linkage between conservation/management objectives and the action required to deliver these objectives. Critically, we believe that the proposal currently lacks the guidance and coherence that will enable Member States and stakeholders to fulfil their obligations to deliver ecologically sustainable fisheries.

The proposal is vague in many key areas, especially in respect of “who should do what and by when?” While this largely reflects the Commission‟s decentralization of

decision-making to Member State level where stakeholders can tailor detailed approaches within the broad framework set by the Commission, the proposal lacks clarity on how this bottom-up model will work in terms of roles and responsibilities.

WEL would like to highlight the following key elements of the proposal that we believe are critical to securing the reform needed to deliver sustainable EU fisheries and a healthy marine environment.

## 1. Application of the Ecosystem Approach

WEL welcomes the clear commitment to implement an ecosystem based approach to fisheries management and to limit the impact of fisheries on the marine environment. In practical terms, it should require Member States to take into account multi-species interactions and minimise the impacts of fishing on wider ecosystem functions and conditions. This must include any habitat degradation and mortality of non-target species (other fish species, birds, marine turtles, etc.) Management measures should be adopted in the context of fisheries level multi-annual management plans developed by stakeholders, which take account of the Marine Strategy Framework Directive (MSFD) requirements to co-ordinate strategic management of European marine regions.

## 2. Integration with other European and marine environmental policies

The new CFP must ensure that fishing plays a role in the delivery of international, EU and other commitments. We welcome the objective on the “integration of the Union environmental legislation” (Article 2.4) but wish to see more explicit reference to compliance with the Birds and Habitats Directive and with MSFD commitments to achieve and maintain Good Environmental Status (GES) in the General Objectives of the proposal. As it stands, the proposal does not recognise that achieving ecological sustainability is a pre-condition for delivering social and economic sustainability and, as such, the impacts of fishing activities on the marine ecosystem must be minimised.

## 3. Maximum Sustainable Yield (MSY)

WEL welcomes the clear commitment in the proposal to restore and maintain populations of harvested species above levels which can produce the Maximum Sustainable Yield (MSY) by 2015. WEL also appreciates the inclusion of MSY goals in Articles 10, 11 and 14 on multi-annual plans and technical measures. We would oppose any weakening of the MSY objective.

## 4. Multi-annual management plans

We believe that multi-annual management plans at the fishery level will be the principal vehicle for delivering fisheries policy and an ecosystem-based approach in the future. In EU waters, the plans must be compliant with the MSFD and, accordingly, be developed on a regional level by a stakeholder-led process.

Whilst we welcome the commitment in the proposal to multi-annual plans for managing fisheries sustainably, we are disappointed by the lack of detail as to who would draft the plans, how this would be achieved and by when. There needs to be a clear

commitment to develop and establish multi-annual plans as a priority for all regions and fisheries no later than 2015. Without this there is a real risk of inertia. We also believe that each plan should be required to undertake an assessment of both capacity and of environmental impact for the fishery in question. These assessments will help the plans set clear goals and targets in line with central policy objectives and identify the specific management measures needed to meet these objectives within the multi-annual plans.

Moreover, there is no explicit recognition of the legitimate role of stakeholders such as fishers, scientists and NGOs at regional level. This lack of any framework for genuine „co-management" is compounded by the lack of clarity on regionalisation.

### 5. Regionalisation

Without genuine decentralisation of fisheries management and the recognition of the key role of stakeholders at a regional level, it is difficult to imagine that the sustainable management of EU fisheries will be achieved. As such, the issue of regionalisation is a key element to the success of the new CFP. There needs to be a shift towards a fisheries management policy where outcome-based macro-level objectives are set at EU level and delivered at a regional and Member State level with clear accountability and stakeholder mechanisms built into the system. This approach would provide stakeholders with a greater sense of ownership for the management of the resource. WEL believes a much more explicit commitment to multi-annual plans being a central mechanism for the delivery of regionalisation is needed, alongside details on exactly how this will be achieved.

### 6. End the wasteful practice of discarding and minimise by-catch

WEL welcomes the Commission"s intention to end the wasteful practice of discarding within a specific timeframe. We also welcome the intention that specific measures to address this problem should be included in the package of technical measures under the multi-annual plans. However, there needs to be much more focus on tailored solutions, on a fishery-by-fishery basis, for minimising the capture of potentially discardable fish in the first place. Avoiding discards is more important than the creation of new markets through the landing of unwanted catch, which removes the incentive for fishermen to avoid catching such fish. Catches of undersized or over-quota fish should never translate into economic profits for the fishing industry. Care should be taken to ensure that the CFP, and its supporting financial instrument, contain adequate safeguards to avoid such perverse outcomes.

### 7. Addressing overcapacity

The CFP should tackle head on the problem of fishing overcapacity and set a vision for realigning capacity with available resources. As such, WEL are disappointed by the lack of a clear vision for realignment of the fleet in the proposal and how this will be achieved. The CFP must introduce adjustment goals for the fishing fleet, at the national or regional level, that are delivered through the multi-annual management plans for each fishery.

The existence of some form of rights to fish is a necessary attribute of any rational fisheries management system. However, the only tool offered by the proposal is that of

mandatory Transferable Fishing Concessions (TFCs), which is presented as stand-alone tool and is not clearly linked to a main delivery framework. Multi-annual plans should allow for the choice of a full range of different Rights Based Management (RBM) options allowing for individual and tailored solutions. As such, transferability of rights should remain optional for Member States, depending on the fishery concerned and the objectives to be met.

## 8. Science base for fisheries management

Sound science must form the basis of the new CFP. Given that a key means of managing EU fisheries will be the adoption of multi-annual plans there needs to be some reference to the data being provided in a way that will support the plans. The application of an ecosystem-based approach to these plans, and compliance with the MSFD, demands a wider scope of data collection than currently enabled by the Data Collection Framework which is confined to the impact of fisheries on fish stocks. This data deficiency must be addressed to help provide the environmental impact and capacity assessments needed to inform the management measures required by multi-annual plans.

## 9. Small-scale fisheries

WEL wants to see a sustainable fishing industry that supports livelihoods alongside conservation outcomes. The CFP should ensure that communities which depend on fishing have access to fisheries resources as long as they comply with sustainability criteria. While no different ecological or management standards should be adopted for small or larger fleets, it may be necessary to apply flexible approaches to meet these objectives as management necessities in many Member States are clearly different between small and large-scale fishing. Small scale artisanal fishers must also be adequately represented in decision-making processes.

**For further information please contact:**
Dr Iwan Ball, Senior Marine Policy Officer WWF Cymru
Tel: 029 2045 4973 E-mail: iball@wwf.org.uk
**Or**
Karen Higgins, Policy Co-ordinator
Tel: 029 2049 7509 E-mail: Karen@waleslink.org

**The following WEL members support this document:**

**WWF Cymru**

**RSPB Cymru**

**Wildlife Trusts Wales**

**Marine Conservation Society.**

**Grwp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin**

**CFP(4)-03-11 papur 3**

**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG LLYWODRAETH CYMRU I GRŴP GORCHWYL A GORFFEN PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD AR DDIWYGIO'R POLISI PYSGODFEYDD CYFFREDIN (PPC)**

**Crynodeb Gweithredol**

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am reoli pysgodfeydd ym moroedd tiriogaethol Cymru (0-12 milltir fôr) a rhoi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar waith ym mharth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi yn fras y materion pennawd o dan y cynigion i ddiwygio'r PPC. Fodd bynnag, nid yw'r manylion wedi'u cyflwyno eto ac mae pryder yn parhau yn hyn o beth.

Er enghraifft, byddem yn cefnogi pob mesur i roi terfyn ar yr arfer o **daflu pysgod yn ôl** ond mae angen i'r cynigion fod yn ymarferol a bod modd eu gorfodi. Ar ben hyn, ymddengys bod y cynigion i **fasnacheiddio hawliau pysgota** fel ffordd o leihau'r capasiti gormodol sy'n cael ei amgyffred yn y sector hefyd yn synnwyr cyffredin. Fodd bynnag, rhaid bod mesurau i amddiffyn swyddi **pysgota arfordirol bach** mewn cymunedau gwledig, neu mae perygl y bydd nifer fechan o fentrau masnachol mawr yn prynu neu'n buddsoddi yn yr hawliau pysgota hyn.

Fodd bynnag, nid yw'r cynigion yn mynd mor bell mewn rhai meysydd ag yr amlinellodd y Comisiwn yn ei bapur gwyrdd. Er enghraifft, roedd awydd clir gan y Comisiwn Ewropeaidd i **ddatganoli'r broses gwneud penderfyniadau**. Bydd angen i ni aros i weld manylion y cynnig hwn ond ymddengys y byddai'r Comisiwn yn ffafrio penderfynu ar gyfleoedd pysgota drwy gynllun rheoli rhanbarthol hirdymor yn hytrach na dirprwyo i Aelod-wladwriaethau rhanbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llawn i'r trafodaethau presennol ar lefel y DU. Cyflwynir ymateb y DU i gynigion y Comisiwn ym mis Tachwedd eleni. Ar hyn o bryd rwy'n cael ar ddeall bod disgwyl i Senedd Ewrop roi adroddiad ar y cynigion ddiwedd yr haf 2012. Drwy gydol y cyfnod hwnnw byddaf yn parhau i weithio gyda'm haelodau cyfatebol yn y DU i sicrhau llais i Gymru yn y trafodaethau sydd i ddod.

**Materion Allweddol**

- **Taflu Pysgod yn Ôl**: Mae'n rhaid rhoi terfyn ar yr arfer o daflu pysgod marw neu sy'n marw yn ôl. Mae angen rhagor o fanylion gan y Comisiwn ond mae'n rhaid i'r mesurau fod yn ymarferol a bod modd eu gorfodi.
- **Hawliau Pysgota Cyfnewidiadwy**: Rydym yn cefnogi defnyddio hyn i ddelio â chapasiti gormodol yn y sector masnachol mwy sy'n dal y rhan helaeth o bysgod, ond mae angen mesurau i amddiffyn pysgodfeydd arfordirol bach.
- **Rhanbartholi**: Mae siom ynghylch y diffyg rhanbartholi yn y cynigion.
- **Pysgota arfordirol bach:** Wrth ddiwygio'r PPC dylid cydnabod pwysigrwydd y sector mewndirol a sicrhau bod unrhyw newidiadau'n ystyried yr effeithiau posibl ar gymunedau arfordirol bregus.

1. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i ystyried Rheoliad arfaethedig Senedd Ewrop a'r Cyngor ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (y cyfeirir ato wedi hyn fel y 'PPC'). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at ddatblygu safbwynt y DU ar y PCC, ac rydym yn cytuno'n fras â'r Polisi. Fodd bynnag, mae rhai problemau mwy difrifol yng Nghymru ac rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i'w crybwyll yma.

**Cefndir**

2. Caiff pysgota'i reoleiddio o dan y PPC, a chan lywodraethau cenedlaethol yr Aelod-wladwriaethau. Yn y DU mae rheoli pysgodfeydd wedi'i ddatganoli gyda'r holl weinyddiaethau pysgodfeydd yn cyfrannu at safbwynt y DU ar faterion Ewropeaidd. Fodd bynnag, Llywodraeth y DU, ac yn fwy penodol Gweinidog DEFRA, sy'n cadw cyfrifoldeb cyffredinol dros faterion Ewropeaidd. Caiff fflyd bysgota'r DU ei rhannu'n 3 sector. Yn gyntaf ceir 'y sector', sef cychod diwydiannol mawr gan fwyaf (dros 10m) sy'n berchen i Gyrff Cynhyrchwyr (sefydlwyd Cyrff Cynhyrchwyr o dan gyfraith yr UE ac maent yn rheoli cwota'u haelodau). Yr ail yw'r cychod 'di-sector' dros 10m nad ydynt yn perthyn i Gorff Cynhyrchwyr. Rheolir eu cwota gan y Llywodraeth drwy system gydgasglu. Y trydydd sector, a'r pwysicaf o safbwynt Cymreig, yw'r 'dan 10'. Cychod o dan 10m yw'r rhain nad ydynt yn aelod o Gorff Cynhyrchwyr, a chaiff eu cwota ei reoli yn ôl terfynau dalfeydd misol sy'n cael eu gosod gan y Llywodraeth drwy system gydgasglu.

3. Mae oddeutu 460 o gychod pysgota cofrestredig yng Nghymru, ond ychydig yw'r rhai sy'n berchen i Gyrff Cynhyrchwyr ac mae'r mwyafrif llethol (dros 90%) yn llai na 10 metr. Mae'r fflyd felly bron yn llwyr o dan ofal a rheolaeth y Llywodraeth. Mae'r cychod hyn yn rhy fach i deithio'n bell, ac ni allan bysgota am amser hir nac mewn tywydd garw. O gymharu gall y cychod mawr sy'n dominyddu'r sector bysgota yn y rhan fwyaf o dywydd, gallant bysgota am fwy o amser a gallant ddal llawer mwy o bysgod. Felly gall cyfle pysgota cymharol fach (h.y. cwota) gynnal nifer anghyfrannol o fawr o swyddi mewn cymunedau arfordirol bach lle ceir prin gyfleoedd gwaith eraill.

4. Yn 2010, glaniodd cychod y DU werth £17.6 miliwn o bysgod a physgod cregyn yng Nghymru, oedd yn fwy nag yn 2009 (£16.6 miliwn) ond yn llai nag yn 2008 (£18.6 miliwn) pan oedd llawer o gregyn bylchog yn cael eu pysgota, oedd yn werth £5.2 miliwn ar ei ben ei hun. Er na chafodd y pysgod hyn i gyd eu dal yng Nghymru na'u dal gan gychod o Gymru, mae'n rhoi syniad o faint y dalfeydd yng Nghymru. Glaniwyd cyfanswm o werth £549 miliwn o bysgod yn y DU gan gychod y DU, gyda'r mwyafrif yn yr Alban (£370 miliwn)[1].

5. Mae pysgodfeydd mewndirol yn hollbwysig i ddiwydiant pysgota Cymru. Mae'r cychod hyn wedi dioddef yn sgil y sector masnachol mawr sy'n gallu codi'i lais yn fwy i gael mwy o gyfleoedd. Wrth geisio delio â'r amgyffrediad o gapasiti gormodol a thaflu pysgod yn ôl, mae'n rhaid i'r Comisiwn ganolbwyntio'r camau gweithredu hyn ar y sector masnachol mawr, ac ar yr un pryd sicrhau nad yw unrhyw fesurau'n rhoi unrhyw bwysau pellach ar y busnesau pysgota bach sy'n rhan o wneuthuriad ein cymunedau arfordirol.

[1] Statistics taken from UK Sea Fisheries Statistics 2010, The UK Fishing Industry in 2010: Landings, published by the Marine Management Organisation

**Taflu Pysgod yn Ôl**

6. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r awydd i roi terfyn ar daflu pysgod yn ôl. Nid oes modd cyfiawnhau taflu pysgod mawr neu sy'n marw yn ôl. Fodd bynnag, mater gwahanol yw taflu pysgod neu bysgod cregyn byw yn ôl a fydd yn goroesi a rhaid i hyn barhau. Am y rheswm hwn rydym yn falch nad yw'r Comisiwn am gyflwyno gwaharddiad cyffredinol ar daflu pob rhywogaeth yn ôl.

7. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch ymarferoldeb gwahardd taflu yn ôl, yn enwedig mewn pysgodfa gymysg. Heb newidiadau i'r gyfundrefn cwotâu ar gyfer pysgodfeydd cymysg, mae'n debygol y bydd llawer o bysgodfeydd yn dod i derfyn cwota ar gyfer un rhywogaeth, ond â gormodedd ar gyfer rhywogaeth arall. Mae'n anodd rhoi sylw pellach heb weld manylion y cynigion a fydd yn dechrau dod i'r amlwg yn ddiweddarach eleni.

**Hawliau Pysgota Cyfnewidiadwy**

8. Rydym yn pryderu nad oes digon o fanylion i'r 'hawliau pysgota cyfnewidiadwy' i gael trafodaeth ddigonol. Os nad yw'r mesurau diogelwch yn ddigonol, gallai arwain at roi hawliau pysgota yn nwylo nifer fach o fusnesau pysgota mawr ar draul fflydoedd bach sy'n bwysig i'r pentrefi arfordirol o amgylch Cymru.

9. Mae'r Comisiwn o'r farn bod gormod o gychod yn mynd ar ôl rhy ychydig o bysgod. Problem gyda chychod masnachol mawr yw hyn yn bennaf. Mae'r tywydd ac ati yn cyfyngu ar waith cychod bach ac mae'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn y DU wedi'u rhoi o dan y fath anfantais fel bod y cyfleoedd pysgota sydd ar gael yn y sector hwn yn anghyfrannol o fach. Mae achos i'r diwydiant geisio ariannu'i drefn ei hun ar gyfer datgomisiynu cychod. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y mesurau hyn yn ddigon eang i alluogi gwledydd yr Aelod-wladwriaethau i ddiogelu pysgodfeydd bach. Rydym o'r farn y dylai'r Aelod-wladwriaethau barhau i fod yn gyfrifol am reoli'r adnodd cyhoeddus hwn mor effeithiol â phosibl.

10. O dan y cynigion byddai'r Aelod-wladwriaethau'n gyfrifol am bennu cyfleoedd pysgota ar gyfer cyflenwadau nad yw'r Cyngor yn pennu cyfleoedd pysgota ar eu cyfer. Mae hyn yn bryder gan fod y rhywogaethau di-gwota hyn (draenogod y môr, cimychiaid, crancod a chregyn bylchog) wedi bod yn fodd o fyw i'r diwydiant yng Nghymru. Ymddengys y byddai'r cynigion hyn yn rhoi baich trwm ar y Llywodraeth a hefyd ar y pysgotwyr sy'n targedu'r cyflenwadau di-gwota presennol. Mae'r cyflenwadau hyn yn tueddu bod yn lleol a deinamig, ac felly nid ydynt yn addas ar gyfer dulliau rheoli cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer cyflenwadau cwota. Byddai hyn yn rhoi baich gwyddonol ychwanegol sylweddol heb lawer o fantais gan y byddai angen cymryd samplau mawr i ddileu amrywiaethau lleol yn y cyflenwadau.

**Rhanbartholi**

11. Mewn ymateb i bapur gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd ar ddiwygio'r PPC, roedd Llywodraeth Cymru yn dadlau dros ranbartholi ar sail pysgodfeydd arfordirol bach. Roedd hyn yn cynnwys ystyriaeth i'r Aelod-wladwriaethau ddatblygu annibyniaeth ymhellach i reoleiddio a rheoli'r pysgodfeydd yn ei eu moroedd tiriogaethol.

12. Dylai dull gweithredu rhanbarthol alluogi rheolaeth well ar lefel ecosystem ac addasu i amgylchiadau lleol. Ymddengys nad yw'r cynigion presennol ar ddiwygio'r PPC yn mynd yn ddigon pell. Yn hytrach ymddengys bod y Comisiwn am hyrwyddo cynlluniau rheoli hirdymor ar gyfer rhywogaethau fel ffordd o ranbartholi. Oni bai bod y model hwn yn cael ei osod ar raddfa wirioneddol ranbarthol, byddai'n parhau'n her i'r Aelod-wladwriaethau gytuno ar gynlluniau o'r natur hon. Byddai hyn yn arwain at

fodel lle byddai'r Comisiwn yn penderfynu yn y pen draw ar gyfleoedd pysgota. Ni fyddai hyn yn cyflawni'r amcan o ddatganoli'r broses o wneud penderfyniadau, ac nid yw'n cynnig unrhyw beth gwahanol i'r dull gweithredu PCC cyfredol.

**Pysgodfeydd arfordirol bach**

13. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr anhawster o ran cynllunio system ddwy haen i adlewyrchu natur wahanol y sector a physgodfeydd mewndirol. Ar yr un pryd mae angen cydnabod bod natur wahanol i'r rhannau hyn o'r fflyd a hefyd nad oes un ateb i bob sefyllfa.

14. Yng Nghymru, mae gan y fflyd mewndirol rôl gynyddol bwysig i'w chwarae mewn cymunedau arfordirol. Mae perygl y bydd diwygio'r PPC yn canolbwyntio ar faterion anodd mewn perthynas â'r sector heb unrhyw ystyriaeth i natur y fflyd mewndirol. Mae'r cyflenwadau y mae'r fflyd mewndirol yn eu targedu yn tueddu i fod yn lleol ac yn ddeinamig. Nid yw dulliau rheoli cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer cyflenwadau cwota yn addas i'r cyflenwadau hyn. Felly, mae angen i'r cynigion diwygio gydnabod natur wahanol y sector morol, a'r fflydoedd mewndirol.

**Casgliad**

15. Mae'r trafodaethau ar bapur diwygio'r PPC ac ymateb y DU yn canolbwyntio'n bennaf ar bysgota masnach ar raddfa fawr lle ceir problemau hysbys. Ar yr un pryd, ceir cydnabyddiaeth bod angen dull gweithredu ar sail ecosystemau. Mae'r rhanbarth mewndirol yn cyfrannu'n sylweddol at yr ecosystem, ond mae hwn yn faes cymhleth sydd angen dull gweithredu penodol a mesurau rheoli. Felly yn ein barn ni nid yw'n briodol cyflwyno un polisi unochrog ar gyfer y sector morol a'r sector mewndirol.

16. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y rhanbarth mewndirol. Mae'r mwyafrif o fflyd Cymru yn gweithredu yn yr ardal hon ac maent wedi'u cyfyngu o ran eu hardal a'r rhywogaethau y cânt eu dal. Felly rydym yn dadlau bod angen datblygu dull gweithredu ategol ar gyfer pysgodfeydd mewndirol fel rhan o gynigion diwygio'r PPC.

**Alun Davies, AC**
**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd**